Dŵr gwyn

Weithiau bydd cwsmeriaid yn dweud fod eu dŵr yn edrych yn gymylog neu wyn. Gall hynny ddeillio o ryddhau aer o'r dŵr ar ffurf swigod bach iawn. Mewn ardaloedd ble mae'r dŵr yn naturiol galed (dŵr calch), gall gronynnau gwyn grynhoi wrth ferwi dŵr. Bydd dilyn y drefn syml isod yn cadarnhau os bydd golwg y dŵr oherwydd presenoldeb aer neu galch.

Aer mewn dŵr

Bydd dŵr yn ymddangos yn wyn pan fydd yn cynnwys swigod bach iawn, yn debyg i'r nwy mewn diodydd carbonedig, ond llawer llai. Os yn gadael y dŵr i setlo bydd y swigod yn codi'n araf iawn o waelod gwydr ac yn diflannu. Tra bydd hynny'n effeithio golwg y dŵr, bydd yn saff i'w ddefnyddio ac ni fydd yn difrodi pibellau neu offer. Efallai bydd aer yn y dŵr yn arwain at sylwi arogl clorin cryfach, a ychwanegir er diheintio a diogelu'r dŵr.

Sut fydd aer yn mynd i'r dŵr?

Mae aer yn gallu mynd i'r dŵr mewn dwy ffordd. Wrth ei dynnu mewn i'r system wrth bwmpio dŵr neu'n fwy arferol pan fyddwn yn draenio prif bibellau er mwyn gwneud gwaith trwsio. Y canlyniad yw bydd aer yn mynd i'r dŵr. Pan fydd hynny'n digwydd mae'n bosibl bydd yn edrych yn 'ewynnog' neu'n gwneud sŷn aer wrth agor tap. Yn achlysurol gall y dŵr symud dyddodion fydd wedi crynhoi yn y pibellau. Dylai glirio ar ôl rhedeg y tap am gyfnod. Os bydd yn parhau, galwch ni ar y llinell gymorth isod.

Fel arfer achosir dŵr gwyn neu gymylog wrth ryddhau aer o'r dŵr gyda newidiadau mewn pwysedd a thymheredd. Mae pibellau dŵr yn destun rhywfaint o bwysedd, felly bydd yr aer yn y dŵr yn parhau tan yr agorir tap. Bydd crynodiad aer yn y dŵr yn dibynnu ar y tymheredd - gyda dŵr oer yn gallu dal mwy o aer. Dyna pam byddwch yn sylwi dŵr gwyn yn fwy aml yn y gaeaf, oherwydd rhyddheir rhywfaint o'r aer pan fydd y dŵr yn cynhesu. Mae'r swigod aer mor fach byddant yn anodd ei gweld ond bydd y dŵr yn ymddangos yn wyn neu gymylog.

Dŵr yn gymylog oherwydd presenoldeb aer?

Dull syml o bennu os yw dŵr yn wyn oherwydd presenoldeb aer yw llenwi gwydr glân gyda dŵr tap a'i adael am ychydig. Bydd y dŵr yn clirio'n araf o waelod y gwydr wrth i'r aer godi i'r wyneb.

Dŵr calch

Mae cyflenwadau dŵr o ffynonellau tan ddaear yn cynnwys mwy o halwynau fel calsiwm a magnesiwm, yn bennaf ar ffurf bicarbonadau, cloridau a sylffadau. Bydd cynhesu, yn arbennig berwi, dŵr yn trosi bicarbonadau i garbonadau ansolfedd gwyn, sef halwynau caled. Bydd y 'prawf gwydr' uchod yn dangos os bydd dŵr yn gymylog oherwydd presenoldeb aer (clirio o'r gwaelod) neu halwynau (dŵr yn clirio o'r top wrth i'r gronynnau setlo a gadael dyddodion mân ar waelod y gwydr). Bydd y rhan fwyaf o ddŵr Dŵr Cymru yn feddal, felly ni fydd yn cynnwys halwynau caled.

Fydd y dŵr yn ddiogel?

Bydd. Ni fydd presenoldeb aer neu halwynau yn effeithio ansawdd dŵr yfed. Yn wir, bydd dŵr tap yn cynnwys rhywfaint o aer ar bob amser. Bydd blas fflat ar ddŵr heb unrhyw aer ynddo.

Gwybodaeth bellach?

Galwch ni gyntaf ar ein llinell gymorth **0800 052 0130**.

Un o'n rheoleiddwyr, yr Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd uchel cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Gwefan **www.dwi.gov.uk**